OFFICE OF COMMUNICATIONS
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: 23 Awst 2007

Rhagair

Hwn yw'r pedwerydd adroddiad blynyddol gan Ofcom sydd yn canolbwyntio ar dueddiadau a datblygiadau farchnad cyfathrebiadau'r DU, gyda'r nod o ddarparu cyd-destun i broses gwneud penderfyniadau Ofcom, yn ogystal â chyrff masnachol a sector cyhoeddus.

Mae'r sector cyfathrebiadau yn chwarae rhan hanfodol yn economi'r DU ac ym mywyd ei dinasyddion. Amcangyfrifwn fod refeniw o dros £50bn wedi ei greu yn 2006 gan gyfuniad o rwydweithiau a gwasanaethau darlledu a thelegyfathrebiadau. Ac awgryma ffigurau gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, yn nhermau Gwerth Ychwanegol Gros, bod telegyfathrebiadau, darlledu a chydrannau yn berthynol i gynnwys y diwydiannau creadigol yn cyfrannu tair gwaith cymaint â diwydiannau trydan, nwy a dŵr y DU gyda'i gilydd.

Ond o dderbyn yr amser a dreuliwn yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau efallai nad yw hyn yn syndod. Amcangyfrifwn fod pob person bellach, ar gyfartaledd, yn treulio dros saith awr y dydd yn gwylio, gwrando, gwneud galwadau ffôn a defnyddio'r we. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol y gwasanaethau cyfathrebiadau yn ein bywyd gwaith a hamdden ac awydd cynyddol, yn enwedig ymysg yr ifanc, i ddefnyddio llu o wasanaethau ar yr un pryd.

Mae argaeledd cynyddol gwasanaethau telegyfathrebiadau soffistigedig yn gyrru'r rôl gynyddol hwn yn ein bywydau, yn ogystal â'r nifer cynyddol o wasanaethau clywedol sydd ar gael trwy gyfrwng y rhyngrwyd. Ac eto, er gwaethaf hyn, syrthiodd y gwariant misol real fesul cartref ar wasanaethau cyfathrebiadau am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2006, i lawr 1.5% i £92.65, yn cael ei yrru gan brisiau galwadau sefydlog a symudol is ymysg twf yn y gystadleuaeth yn y sector telegyfathrebiadau.

Mae cryn dipyn o'r twf yn y sector yn deillio o ddyfodiad offer cydgyfeirio sydd yn gallu derbyn gwasanaethau gan fwy nag un gweithredwr a thros aml blatfformau. Mae nifer o weithredwyr bellach yn cynnig 'bwndeli' cyfathrebiadau yn cynnwys amrywiaeth o wahanol wasanaethau. I adlewyrchu hyn rydym wedi newid strwythur adroddiad eleni trwy gyflwyno adran ar gydgyfeiriant ar ddechrau'r ddogfen. Mae hwn yn mabwysiadu ymagwedd sydd yn dilyn cynnydd y gwasanaethau a chynnwys; o'u creu a'u pecynnu, i ddosbarthu dros rwydweithiau sefydlog a di-wifr, i lywio ac yna ei ddefnydd gan ddefnyddwyr.

Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil newydd sydd yn edrych ar effaith dwy dechnoleg ddigidol allweddol ar gyfryngau traddodiadol, y ffôn digidol a'r recordiwr fideo digidol (DVR). Yn y ddwy enghraifft rydym yn gweld arwyddion o her i economeg y diwydiant traddodiadol gyda hyd at 78% o berchnogion DVR yn hawlio eu bod yn rheolaidd yn gwibio trwy hysbysebion tra'n gwylio rhaglenni wedi eu recordio a'r genhedlaeth newydd o setiau llaw symudol manylebau uchel yn gynyddol yn disodli dyfeisiadau fel camerâu, chwaraewyr cerddoriaeth symudol a chonsolau gemau.

Y llynedd fe wnaethom adrodd ar y bygythiad neilltuol i'r cyfryngau traddodiadol oherwydd arferion defnydd newidiol pobl ifanc rhwng 16-24 oed. Eleni rydym yn edrych ar ganlyniadau'r don gyntaf o brosiect ymchwil parhaus a gomisiynwyd gan Ofcom i'r defnydd o gyfathrebiadau gan blant y DU. Mae'r ymchwil hwn yn darganfod er enghraifft, bod dros 75% o blant 11 oed yn hawlio eu bod yn berchen ar set deledu, consolau gemau a ffonau symudol.

Yna ystyriwn bob un o'r diwydiannau cyfathrebiadau gan edrych ar ddarpariaeth rhwydweithiau, gwasanaethau a chynnwys, ar draws teledu, radio a thelegyfathrebiadau, a'r nifer sydd yn eu defnyddio. Tynnwn ar amrediad o ddata a ddarperir gan weithredwyr, prif

ganfyddiadau ymchwil o arolygon rheolaidd Ofcom a mesur cynulleidfa gan BARB a RAJAR. Rydym hefyd wedi defnyddio data trydydd parti eleni i'n helpu i ddisgrifio cydgyfeiriant y farchnad.

Y cyhoeddiad hwn yw'r ail o dri phrif Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ofcom yn 2007 (AFG). Edrychodd AFG y Gwledydd a'r Rhanbarthau a gyhoeddwyd ym mis Mai ar y materion sydd yn effeithio ar boblogaethau gwledig a threfol mewn gwahanol rannau o'r DU a nod AFG Rhyngwladol, sydd i'w gyhoeddi o gwmpas y Nadolig, yw gosod y DU mewn persbectif ehangach gan adlewyrchu globaleiddio o fewn y sector a phwysigrwydd cynyddol yr Undeb Ewropeaidd ar faterion rheoleiddiol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at gynnydd mewn dealltwriaeth ynglŷn â'r ffyrdd newidiol y caiff y gwasanaethau cyfathrebiadau eu cyflwyno a'u defnyddio yn y DU. Ei ddiben felly yw cefnogi nod rheoleiddiol Ofcom i ymchwilio i farchnadoedd yn rheolaidd ac i barhau ar y blaen o ran dealltwriaeth technolegol. Mae hefyd yn cyflawni gofynion adran 358 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i gyhoeddi adolygiad ystadegol blynyddol.

Croesawn adborth ar bob Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu a byddai gennym ddiddordeb neilltuol mewn clywed barn ar adran Cydgyfeiriant y ddogfen hon. E-bostiwch tîm Gwybodaeth Marchnad Ofcom ar market.intelligence@ofcom.org.uk

Ed Richards
Prif Weithredwr

Pwyntiau allweddol: cydgyfeiriant y marchnadoedd cyfathrebu

- Mae argaeledd band eang i dros hanner cartrefi'r DU wedi gyrru datblygiad gwasanaethau a chydgyfeiriant dyfeisiadau.

- Mae cydgyfeiriant wedi creu cyfleoedd refeniw mawr i gynhyrchwyr nifer o fathau cynnwys. Dros hanner cyntaf 2007 daeth 90% o werthiant senglau'r DU o lawr lwytho digidol i'r cyfrifiadur neu set llaw symudol. Mae'r farchnad ar gyfer gemau cyfrifiadur hefyd wedi'i drawsnewid gyda miliynau o ddefnyddwyr ledled y byd bellach yn cymryd rhan mewn profiadau gemau ar-lein ar y cyd.

- I'r gwrthwyneb i hyn mae cynnwys clywedol yn parhau i gael ei gyllido yn bennaf gan ddarlledwyr, er bod refeniw cynhyrchwyr annibynnol o hawliau cyfryngau newydd wedi mwy na dyblu i £42m yn 2006.

- Mae'r model traddodiadol o allbwn darlledu clywedol a gyllidir gan hysbysebwyr yn wynebu pwysau gan boblogrwydd cynyddol hysbysebu ar-lein (cynyddodd o bron i hanner yn 2006 i £2bn) a chan yr aml sianeli (a ddenodd refeniw hysbysebu o dros £1bn yn 2006).

- Yn eu tro mae'r darlledwyr daearol wedi croesawu'r rhyngrwyd fel platfform dosbarthu newydd gyda Channel 4, ITV a'r BBC oll yn lansio mynediad rhyngrwyd yn ôl y galw neu fynediad byw i'w cynnwys.

- Mae dyfeisiadau soffistigedig yn gynyddol yn dechrau dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr. Bellach mae gan 15% o unigolion recordydd fideo digidol (DVR) ac mae hyd at 78% o oedolion sydd yn berchen arnynt yn dweud eu bod bob amser, neu bron bob amser yn gwibio trwy'r hysbysebion wrth wylio rhaglenni wedi eu recordio.

- Mae mynediad i ddyfeisiadau cyfathrebiadau yn gyffredin iawn ymysg plant, gyda dros dri chwarter o blant 11 oed yn hawlio eu bod yn berchen ar set deledu, consol gêm a ffôn symudol.

- Mae gwasanaethau cyfathrebiadau bwndel yn gynyddol boblogaidd gyda defnyddwyr gyda 40% o gartrefi bellach yn derbyn mwy nag un gwasanaeth cyfathrebiadau gan yr un darparydd (cynnydd o un rhan o dair ers y llynedd). Mae mwyafrif cwsmeriaid band eang yn ei gymryd fel rhan o fwndel.

- Mae pob person bellach yn defnyddio gwasanaethau cyfryngau a chyfathrebiadau gyda'i gilydd am dros 7 awr y dydd. Ond mae'r tueddiad i ddefnyddio rhai cyfryngau ar yr un pryd yn golygu bod yr amser gwirioneddol a ddefnyddir ar gyfryngau yn debygol o fod yn llai na hyn.

- Y larwm yw'r nodwedd set llaw symudol sydd â'r effaith fwyaf ar ddyfeisiadau annibynnol o ran cymryd lle offer arall, ac yna'r camera. Dywed nifer sylweddol o bobl hefyd bod eu ffôn symudol yn cael ei ddefnyddio yn lle eu chwaraewr cerddoriaeth symudol annibynnol neu gonsol gêm.

Pwyntiau allweddol: teledu

- Roedd cyfanswm refeniw'r diwydiant teledu bron yn £10.8bn yn 2006, i fyny 1.3% ar 2005. Lledaenodd y bwlch rhwng refeniw tanysgrifio a hysbysebu ymhellach yn ystod y flwyddyn; cododd tanysgrifiadau o 3.5% i dros £4bn a syrthiodd hysbysebu o 2.2% i £3.5bn.

- Darlledodd y diwydiant 1.8 miliwn awr o allbwn yn 2006. Gyda'i gilydd tyfodd oriau allbwn o sianeli yn y genres Adloniant, Ffeithiol, Newyddion, Hamdden, Plant, Chwaraeon ac Ethnig i ychydig dros filiwn – 15% o'r rhain yn cynnwys gwreiddiol ar rediad cyntaf.

- Syrthiodd cynhyrchu mewnol o 8.7% dros y flwyddyn i £1,430m tra bod gwariant ar gynhyrchu a chaffael annibynnol wedi tyfu 6.8% i £3,077m. Aeth yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros eu cwota rhaglenni annibynnol o 25% o 5% o leiaf.

- Mae oriau o allbwn rhanbarthol gwreiddiol ar ei rediad cyntaf wedi syrthio 20% ers 2001 i gyfanswm o 11,919 yn 2006; mae gwariant wedi syrthio 9.2% i £324m dros yr un cyfnod.

- Torrodd teledu digidol trwy'r ffin o 80% yn chwarter cyntaf 2007 gan ddwyn cyfanswm y cartrefi gyda theledu aml sianeli i 20.4 miliwn (80.5% o'r cyfanswm).

- Bellach mae mwy o ddyfeisiadau Freeview wedi'u cysylltu i'r brif set deledu yn y cartref na blychau lloeren pen set y mae'n rhaid talu amdano. Erbyn chwarter cyntaf 2007 roedd gan 8.4 miliwn o gartrefi Freeview, cynnydd o 33.3% ar y flwyddyn tra bod 8.0 miliwn yn derbyn lloeren y mae'n rhaid talu amdano, cynnydd o 8.3%.

- Pan gymerir pob set deledu yn y DU i ystyriaeth mae 49% eto i'w newid i ddigidol.

- Dyfarnodd Ofcom 109 trwydded i ddarlledu yn y DU yn 2006; roedd 29% o'r rhain ar gyfer sianeli Adloniant, 28% ar gyfer sianeli genre Ethnig a 17% ar gyfer Ffeithiol. Tyfodd y nifer o drwyddedau sianel ethnig o 20% dros y flwyddyn.

- Mae'r pum prif rwydwaith wedi bod yn colli cyfran cynulleidfa ond maent wedi gallu gwrthsefyll hyn i ryw raddau gyda pherfformiad cryf eu sgil sianeli. Roedd Film4,More4, E4, ITV3 ac ITV4 ymysg y deg enillydd uchaf yn y gyfran yn y flwyddyn hyd at Ragfyr 2006.

- Mae cyfran gyfun cynulleidfa'r pum sianel ddaearol yn fwy ar Freeview (68%) nag ar blatfformau cebl a lloeren (49%). Ond mae'r tueddiad tuag i lawr yn amlycach ar Freeview (a gollodd 6% yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2007)

- Bellach mae bron i 450,000 o gartrefi yn tanysgrifio i wasanaethau teledu diffiniad uchel (HDTV) (1.7% o gyfanswm cartrefi teledu). Mae 43% o danysgrifwyr HDTV yn hawlio eu bod yn gwylio mwy o deledu yn gyffredinol ers derbyn y gwasanaeth ond dywed 77% eu bod yn gwylio llai o oriau o sianeli nad ydynt yn Ddiffiniad Uchel.

Pwyntiau allweddol: radio

- Roedd cyfanswm cyllido ar gyfer diwydiant radio'r DU yn £1.15bn yn 2006, i lawr 0.6% ar 2005. Amcangyfrifwn fod gwariant radio'r BBC wedi cyrraedd £637m neu 55% o'r cyfanswm. Enillodd radio masnachol cenedlaethol tua £270m o refeniw hysbysebu net (23%), tra bod radio masnachol lleol wedi ychwanegu £153m pellach (13%). Nawdd masnachol oedd yn cyfrif am y £91m terfynol (7.9%).

- Mae cyrhaeddiad radio wedi bod yn sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf ar o gwmpas 90%. Ond syrthiodd cyfanswm oriau gwrando o 1.4% yn y flwyddyn i chwarter cyntaf 2007, ac maent i lawr 4% ar bum mlynedd yn ôl. Mae oriau gwrando wedi syrthio fwyaf ymysg y rhai rhwng 25-34, i lawr 17% dros bum mlynedd, ac ymysg plant, i lawr 8.7%. Ond mae'r rhai dros 55 oed bellach yn gwrando mwy ar radio, gydag oriau i fyny o 5.5%.

- Mae'r cwymp mewn oriau wedi effeithio yn bennaf ar radio lleol gyda gwrando ar radio lleol BBC i lawr o 6.7% dros y flwyddyn a radio masnachol lleol i lawr o 4.1%. Yn groes i hyn mae gorsafoedd cenedlaethol wedi cynyddu eu horiau gwrando gyda radio masnachol cenedlaethol yn enwedig wedi cynyddu eu cyfran ar draws pob grŵp oedran, i fyny 1% dros y flwyddyn. Mae gorsafoedd rhwydwaith y BBC hefyd wedi ennill oriau, i fyny o 0.5%

- Cododd cyfran gwrando radio'r BBC i 56% yn chwarter cyntaf 2007, i fyny 3% ers 2002. Tra bod cyfran radio masnachol wedi syrthio i 42%, i lawr o 4%. Roedd cyfran gorsafoedd rhwydwaith y BBC ar 45.5% yn uwch na phob radio masnachol. Ond roedd cyfran gwrando masnachol cenedlaethol yn fwy na gwrando lleol a chenedlaethol y BBC (10.7%) am y tro cyntaf.

- Roedd tri phrif grwp yn gyfrifol am 67% o holl wrando radio masnachol erbyn chwarter cyntaf 2007. Roedd gan Gcap Media gyfran o 31% (34% yn chwarter cyntaf 2006), Emap 24% (i fyny o 1%) a Chrysalis (bellach Global Radio) 12%, i fyny 0.4%.

- Bydd radio digidol DAB yn datblygu ymhellach yn 2008 gyda lansio ail amlblecs DAB masnachol cenedlaethol. Dyfarnwyd y drwydded genedlaethol newydd i 4Digital Group Limited ym mis Gorffennaf 2007 a bydd y rhwydwaith newydd yn cludo deg gwasanaeth radio digidol cenedlaethol yn ogystal â gwasanaethau testun a data.

- Mae Ofcom yn trwyddedu amlblecsau DAB lleol pellach yn ystod 2007, gyda saith wedi'u hysbysebu a dau wedi'u dyfarnu erbyn Gorffennaf. Mae tair trwydded amlblecs pellach i'w hysbysebu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

- Aeth gwerthiant setiau radio digidol DAB dros 5 miliwn yn ystod chwarter cyntaf 2007 gyda 1.8 miliwn gwerthiant yn y 12 mis blaenorol. Mae RAJAR yn amcangyfrif bod 19.5% o oedolion y DU bellach yn berchen ar set DAB, i fyny 8% ar y llynedd. Ar hyn o bryd mae dros 300 model o setiau radio DAB ar y farchnad gyda'r cyfartaledd pris am set symudol bellach tua £70.

- Dywed 58% o wrandawyr eu bod wedi defnyddio radio trwy un o'r platfformau digidol (i fyny 7% ers y llynedd), mae 41% wedi gwrando trwy DTV, 24% dros y rhyngrwyd ac 8% trwy ffôn symudol. Mae 27% o oedolion y DU bellach yn berchen ar chwaraewr MP3 ac mae 5% yn eu defnyddio i wrando ar bodcastiau radio.

- Dyfarnwyd 15 o drwyddedau FM newydd gan Ofcom yn ystod 2006 gyda 4 pellach wedi'u dyfarnu erbyn Mai 2007. Mae trwyddedu FM bellach wedi dod i ben gyda'r cylch diweddaraf o ddyfarniadau. Roedd Ofcom wedi dyfarnu cyfanswm o 140 o drwyddedau radio cymunedol erbyn Gorffennaf 2007.

Pwyntiau allweddol: telegyfathrebiadau

- Syrthiodd cyfartaledd gwariant cartrefi ar wasanaethau telegyfathrebiadau o bron i bunt yn 2006 i £64.73 y mis. Am y tro cyntaf syrthiodd cyfartaledd gwariant ffonau symudol (o 70c i £31.72) wrth i gwymp mewn prisiau wneud iawn am gynnydd yng nghyfanswm y nifer o gysylltiadau ac yng nghyfartaledd nifer y galwadau llais a negeseuon testun fesul tanysgrifiwr. Syrthiodd prisiau tebyg am debyg (yn seiliedig ar fasged o wasanaethau gyda chyfartaledd defnydd ar lefelau 2006) o bron i 9%.

- Cyfanswm refeniw'r diwydiant yn 2006 oedd £47.0bn, ac o hwn roedd £38.5bn yn refeniw manwerthu (h.y. refeniw gan ddefnyddwyr eithaf). Roedd hwn yn gynnydd o 1.4% ar 2005 ond mae'n cynrychioli twf sylweddol arafach nag yn y pum mlynedd flaenorol wrth i refeniw llinellau sefydlog ddirywio ac wrth i dwf mewn refeniw symudol a band eang arafu.

- Roedd gan dros hanner cartrefi'r DU fand eang erbyn Mawrth 2007. Cyfartaledd cyflymdra (cyfun) ym mis Mehefin 2007 oedd 4.6Mbit/s er bod y cyflymdra gwirioneddol yn aml yn sylweddol is, yn amrywio yn ôl ansawdd a hyd y llinell o'r eiddo i'r gyfnewidfa a nifer y defnyddwyr ar yr un pryd.

- Roedd nifer y cartrefi gyda chysylltiad symudol (93%) yn fwy na nifer y cartrefi gyda chysylltiad sefydlog (90%) am y tro cyntaf yn 2006. Cododd cyfartaledd galwadau fesul cysylltiad symudol dros 100 munud y mis am y tro cyntaf tra bod cyfartaledd galwadau fesul cysylltiad llinell sefydlog wedi syrthio dan 300 munud.

- Ar ddiwedd 2006 roedd bron i 70 miliwn o danysgrifiadau ffonau symudol gweithredol yn y DU gyda thwf pellach yn cael ei yrru gan set llaw luosog neu berchnogaeth SIM. O'r rhain roedd 35% yn gysylltiadau contract (1% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol).

- Symudodd 3G i'r brif ffrwd yn 2006 gyda chysylltiadau yn tyfu o 70% i gyrraedd 7.8 miliwn. Mae cyfanswm cwsmeriaid 3G gyda'i gilydd ar rwydweithiau O2, Orange, T-Mobile a Vodafone yn uwch nawr na'r rhai ar weithredwr 3G yn unig, 3UK.

- Cyflymodd dadfwndelu dolen leol trwy 2006 ac erbyn diwedd Mawrth 2007 roedd 72% o eiddo'r DU wedi'u cysylltu i gyfnewidfa wedi'i ddadfwndelu (cynnydd o 45% ym Mawrth 2006). Cododd canran yr eiddo mewn ardaloedd dadfwndel yn cymryd gwasanaethau LLU o 3% ym Mawrth 2006 i 9% ym Mawrth 2007.

- Syrthiodd cyfran BT o swm llais sefydlog dan 50% yn 2006 am y tro cyntaf. Gweithredwyr anuniongyrchol (rhai'n cynnig gwasanaethau dros rwydwaith mewnol darparydd arall) oedd y prif fanteiswyr wrth i'w cyfran o alwadau llais llinell sefydlog godi o 25% yn 2005 i 28% yn 2006.

- Mae dadansoddiad o'r amser a dreulir ar-lein yn datgelu bod Prydain yn genedl o siopwyr a rhwydweithwyr cymdeithasol. Treuliwyd mwy o amser ar eBay nag ar unrhyw wefan arall ac mae'r safleoedd rhwydweithio Bebo, MySpace, Facebook ac YouTube oll yn y deg safle uchaf o ran yr amser a dreulir.

- Mae menywod rhwng 25-34 oed yn treulio dros 20% mwy o'u hamser ar-lein na gwrywod o'r un grwp oedran. Mae 'syrffwyr arian' hefyd yn cyfrif am gynnydd yn y defnydd o'r rhyngrwyd gyda rhai dros 50 oed yn gyfrifol am bron i 30% o'r amser a

dreulir ar y rhyngrwyd (er, gan fod y rhai dros 50 oed yn 41% o boblogaeth y DU mae eu defnydd o'r rhwydwaith yn parhau yn sylweddol is na'r cyfartaledd)